Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd
# Sut i Hawlio

# Ffurflen Hawlio – Canllaw Sut i Lenwi


## Neges Bwysig

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i lenwi Ffurflen Hawlio’r Contract a’r dystiolaeth ddogfennol sydd ei hangen i gefnogi’ch hawliad.

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i’ch cyfrif ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Ar agor o Ddydd Llun hyd Ddydd Gwener - 09.00 tan 16.00).

# Cyfrif RPW Ar-lein

I weld Ffurflen Hawlio’r Contract, rhaid ichi fynd trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein. Ar ôl ichi fewngofnodi, fe welwch dudalen ‘Hafan’ eich cyfrif RPW ar-lein.


Taliadau Gwledig Cymru
RPW Ar-Lein Online
Rural Payments Wales

English

Rydyn ni'n newid y ffordd rydych yn mewngofnodi ar RPW Ar-lein

Mae manylion mewngofnodi RPW Ar-lein yn newid er mwyn defnyddio One Login GOV.UK. O fis Ionawr 2026, ni fyddwch yn gallu mewngofnodi ar RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth.

Bydd angen ichi barhau i ddefnyddio Porth y Llywodraeth os:

- nad ydych wedi mynd i'ch cyfrif (CRN) trwy One Login GOV.UK o'r blaen ac nad ydych wedi cael gwahoddiad i symud i One Login GOV.UK
- mae gennych wahoddiad i symud eich cyfrif (CRN) i One Login GOV.UK ond nid ydych yn dymuno gwneud hynny heddiw
- ydych yn weinyddwr Porth y Llywodraeth a'ch bod am symud eich CRN i One Login GOV.UK heddiw

Bydd gofyn ichi ddefnyddio One Login GOV.UK os:

- ydych wedi cael gwahoddiad i ymuno â busnes ar-lein
- ydych wedi defnyddio One Login GOV.UK i weld y CRN o'r blaen
- nad ydych wedi defnyddio RPW Ar-lein o'r blaen

**Dewiswch ffordd i fewngofnodi**

○ Mewngofnodi trwy Borth y Llywodraeth
○ Mewngofnodi neu gofrestru gan ddefnyddio One Login GOV.UK

Parhau

Beth yw One Login GOV.UK?

One Login GOV.UK fydd y ffordd newydd i chi fewngofnodi i holl wasanaethau'r llywodraeth ganol. Gydag One Login GOV.UK, byddwch yn gallu cael at yr holl wasanaethau rydych chi'n eu defnyddio, i gyd mewn un lle, gyda'r un cyfeiriad e-bost a chyfrinair.

Beth fydd yn newid i RPW Ar-lein?

Byddwch yn gallu defnyddio'ch cyfrif One Login GOV.UK i weld yr holl fusnesau rydych yn gweithredu ar eu rhan. Ar ôl cofrestru neu ymuno â busnes ar-lein, cliciwch ar y busnes rydych am ei weld wrth fewngofnodi.

Sut mae dechrau defnyddio One Login GOV.UK gydag RPW Ar-lein?

Yn gyntaf, cofrestrwch am gyfrif gyda One Login GOV.UK. Yna rhowch y cyfeiriad e-bost y gwnaethoch chi ei ddefnyddio i greu'ch cyfrif One Login GOV.UK i weinyddwr grŵp Porth y Llywodraeth eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gweinyddwr y grŵp yw'r person sy'n ychwanegu aelodau at dim ar Borth y Llywodraeth ac yn eu rheoli, hynny yw efallai prif gyswllt y busnes neu'r person sy'n rheoli'ch cyfrif RPW Ar-lein. Os mai chi yw'r unig un sy'n gwybod eich ID ar Borth y Llywodraeth, chi fwy na thebyg yw'r gweinyddwr.

Gall gweinyddwr y grŵp wahodd ei hun i'r cyfrif RPW Ar-lein ac yna defnyddio One Login GOV.UK i fewngofnodi. Gall wahodd pobl eraill i ddefnyddio'r cyfrif hefyd, gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost ei gyfrif One Login GOV.UK.


Sut mae cysylltu i ofyn cwestiwn?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y newid i One Login GOV.UK, Cysylltwch â ni


Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd | Cwcis | Preifatrwydd

# Gweld Ffurflen Hawlio'r Contract

I weld Ffurflen Hawlio'r Contract, cliciwch ar y ddolen Contractau a Grantiau Bach ar dop y ffurflen ar eich sgrin Hafan (gweler isod).




O'r gwymplen, cliciwch ar Contractau. Yna fe welwch dudalen gyda'ch contractau byw arni, fel y gwelwch isod.




Cliciwch ar y botwm Dechrau Hawliad i gael mynd i dudalen Cyflwyniad y Ffurflen Hawlio.




# Tudalen y Cyflwyniad


Mae'r dudalen hon yn rhoi negeseuon pwysig ichi am Ffurflen Hawlio’r Contract. Gofalwch eich bod yn eu darllen yn drylwyr cyn dechrau. Gallwch agor y Canllaw Sut i Lenwi Ffurflen Hawlio’r Contract ar wefan Llywodraeth Cymru (bydd hyn yn agor tab newydd ar eich Porwr Rhyngrwyd) drwy glicio ar y ddolen 'Sut i Lenwi'.

Cliciwch ar y botwm Nesaf yng nghornel dde uchaf a chwith isaf y dudalen. Bydd hynny’n mynd â chi i’r Hysbysiad Preifatrwydd: grantiau Llywodraeth Cymru. Gofalwch eich bod yn ei ddarllen ac yn ei ddeall cyn mynd i’r dudalen nesaf.

Cliciwch ar y botwm Nesaf i gael mynd i dudalen Eitemau’r Hawliad lle gallwch ddechrau hawlio. Os oes gennych nifer o eitemau i’w hawlio, gallwch ddefnyddio’r blwch chwilio Dod o Hyd i Eitemau.




Gofalwch eich bod yn nodi manylion eich eitemau’n llawn. Ar ôl rhoi holl fanylion eitem, ticiwch y blwch Eitem wedi’i Gwblhau. Os na fyddwch wedi llenwi unrhyw rai o’r blychau, byddwch yn cael neges gwall i’ch atgoffa i roi’r wybodaeth sy’n eisiau. Pan fyddwch yn hapus eich bod wedi nodi manylion holl eitemau’ch hawliad, cliciwch Nesaf i gael mynd i dudalen Cynnydd y Prosiect.



Bydd angen i chi lenwi’r holl flychau hyn. Os na fyddwch yn llenwi pob un, byddwn yn eich atgoffa i roi’r wybodaeth sy’n eisiau. Ar ôl ichi gwblhau’r adroddiad cynnydd, cliciwch ar y botwm Nesaf i gael mynd i’r dudalen Dogfennau Ategol.

# Dogfennau Ategol – Tystiolaeth ar gyfer eich Cais




Yn y fan hon, gallwch lanlwytho'r holl ddofennau fydd eu hangen arnoch i gefnogi'ch cais. Mae Adran F canllawiau'r cynllun yn disgrifio'r dogfennau fydd eu hangen arnoch i gefnogi'ch hawliadau.

Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd (ffenestr 2): llyfryn rheolau cyffredinol | LLYW.CYMRU

**Caiff y taliad ei ddal yn ôl os na fydd tystiolaeth ddigonol.**

**Pwysig:** Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich hawliad cyntaf o fewn 4 mis i ddyddiad cychwyn y dyfarniad grant. Cyn cyflwyno'ch hawliad cyntaf, rhaid i chi hefyd gyflwyno Datganiad Sicrhau Atodlen 6: Ffurflen Atal Twyll a Llywodraethiant. Bydd copi wedi'i roi i chi gyda'ch contract.

Ni fyddwn yn talu'ch hawliad cyntaf nes ein bod yn cael y ffurflen oddi wrthych.

Ar ôl gorffen yr adran hon, cliciwch Nesaf i fynd i'r dudalen Cyflwyno.

# Cyflwyno'r Hawliad

Yr adran gyntaf y byddwn yn mynd â chi iddi yw'r Gwallau a Gwybodaeth a Chrynodeb.

**Gwallau a Gwybodaeth a Chrynodeb**


Mae'r adran hon yn rhestru'r Negeseuon 'Gwallau' a 'Gwybodaeth' ar Ffurflen Hawlio'ch Contract. **Rhaid** cywiro unrhyw wallau cyn cyflwyno Ffurflen Hawlio'ch Contract.

Diben y negeseuon Gwybodaeth yw'ch atgoffa am unrhyw gamau y gallai fod gofyn ichi eu cymryd, ond nid ydynt yn eich rhwystro rhag cyflwyno'ch hawliad.

Mae'r Crynodeb yn rhestru'r manylion rydych wedi'u rhoi ar eich hawliad.

Os ydych chi'n hapus bod y cyfan yn gywir, cliciwch ar y botwm Nesaf i chi gael mynd i'r dudalen Datganiadau ac Ymrwymiadau.

# Datganiadau ac Ymrwymiadau




Rhaid darllen y Datganiadau a’r Ymrwymiadau i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â nhw. Pan fyddwch yn fodlon eich bod wedi'u darllen a'u deall ac wedi cydymffurfio â nhw, ticiwch y blwch ar y gwaelod i fynd yn eich blaen.

Os na fyddwch wedi ticio'r blwch i gadarnhau'ch bod wedi darllen a deall y Datganiadau ac Ymrwymiadau ac wedi cydymffurfio â nhw, fe welwch neges camgymeriad ac ni fyddwch yn cael cyflwyno'ch hawliad tan ichi dicio'r blwch. Cliciwch y botwm **Nesaf** os ydych am fynd yn eich blaen.

## Cyflwyno

Mae Ffurflen Hawlio’ch Contract yn awr yn barod i’w chyflwyno. Os ydych yn barod i'w chyflwyno, pwyswch y botwm cyflwyno glas. Gofalwch eich bod yn anfon Ffurflen Hawlio’ch Contract erbyn y dyddiad cau sydd yn y contract. Os na fyddwch wedi'i hanfon erbyn y dyddiad cau, chewch chi ddim mo'ch talu.

Byddwn yn eich atgoffa bod yn rhaid cyflwyno’r holl ddogfennau ategol i gefnogi’ch hawliad.

## Manylion Cysylltu

### Ymholiadau Cyffredinol – y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Yn y lle cyntaf, dylai cwsmeriaid sydd am gysylltu â ni ffonio neu e-bostio’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau.

Gallwch ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' ar eich cyfrif RPW Ar-lein i anfon cwestiwn at y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Fel arall, defnyddiwch y manylion cysylltu canlynol:

Ffôn: 0300 062 5004

Cyfeiriad Blwch Swyddfa’r Post:
Taliadau Gwledig Cymru,
Blwch Post 251,
Caernarfon,
LL55 9DA